Arolygiaeth Gofal **Cymru**
Care Inspectorate **Wales**

# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Cartref Nyrsio Hazelhurst**

**Sully Road**
**Penarth**
**CF64 2TP**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

## Dyddiad y cwblhawyd yr arolygiad

8 Mawrth 2022

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2022.***
*Gallwch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sy'n ymddangos yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio logos) yn rhad ac am ddim, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Mae'n rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Ynglyn â Chartref Nyrsio Hazelhurst

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth cartref gofal<br>Oedolion â gofal nyrsio |
| Darparwr cofrestredig | HAZELHURST NURSING HOME (PENARTH) LTD |
| Lleoedd cofrestredig | 41 |
| Iaith y gwasanaeth | Saesneg |
| Arolygiad diwethaf gan Arolygiaeth Gofal Cymru | Chwefror 2019 |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol o ran y Gymraeg? | Mae'r gwasanaeth hwn yn gweithio tuag at ddarparu 'Cynnig Rhagweithiol' o ran y Gymraeg ar hyn o bryd. Er mwyn symud ymlaen ymhellach, rydym yn argymell bod y darparwr cofrestredig yn ystyried canllawiau dilynol "Mwy na Geiriau" Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gymraeg mewn Gofal Cymdeithasol. |

## Crynodeb

Mae Cartref Nyrsio Hazelhurst yn gallu darparu ar gyfer 41 o breswylwyr ag anghenion nyrsio a gofal. Roedd yr arolygiad hwn yn ddirybudd. Sonny Bamrah yw'r unigolyn cyfrifol ar gyfer y gwasanaeth ac mae rheolwr penodedig sydd wedi cofrestru gyda Gofal Cymdeithasol Cymru, y rheoleiddiwr gweithlu, yn unol â gofynion cyfreithiol.

Mae'r bobl yn cael gofal a chymorth priodol gan dîm o staff cyfeillgar ac mae staff digonol i ddarparu cymorth, gyda threfniadau ar waith i lenwi unrhyw ddiffygion yn y dyfodol. Mae'r bobl yn byw mewn llety sy'n addas ar gyfer eu hanghenion ac mae'r cartref wedi cael ei adnewyddu'n barhaus. Mae'r bobl yn cymryd rhan mewn gweithgareddau ac yn cael cymorth yn unol â'u diddordebau a'u dymuniadau.

Mae'r tîm rheoli yn weladwy ac yn cymryd rhan yn y gwaith o redeg y gwasanaeth o ddydd i ddydd ac mae systemau ar waith i sicrhau ansawdd y gofal a'r cymorth a ddarperir. Mae'r dogfennau gofal wedi gwella ac yn adlewyrchu anghenion gofal ac iechyd y bobl sy'n byw yn y cartref.

Mae amgylchedd y cartref yn ddiogel. Ymgynghorir â phobl am y gofal a'r cymorth a gânt ac fel rhan o wella'r gwasanaeth. Mae prosesau atal a rheoli heintiau ar waith i leihau'r risg o glefydau heintus yn lledaenu ledled y cartref.

## Llesiant

Mae gan bobl lais i wneud dewisiadau am eu gofal o ddydd i ddydd; gwelsom staff gofal yn ymateb yn brydlon i anghenion pobl mewn modd caredig a chyfeillgar trwy gydol yr ymweliad. Mae’r cynlluniau personol wedi cael eu gwella ac mae’r wybodaeth bwysig yn gyfredol. Mae hyn yn sicrhau bod gofal yn canolbwyntio ar yr unigolyn ac yn parhau i ddiwallu anghenion a disgwyliadau'r bobl.

Mae'r bobl yn cael cymorth sy'n hybu eu hiechyd corfforol a meddyliol. Mae'r dogfennau'n cynnwys manylion y gofal a'r cymorth a roddwyd.  Mae staff yn gwneud atgyfeiriadau i weithwyr gofal iechyd proffesiynol eraill yn ôl yr angen. Mae tystiolaeth ddogfennol o gefnogaeth gan weithwyr proffesiynol eraill fel meddygon teulu, gweithwyr cymdeithasol a dietegydd mewn ffeiliau gofal.

Mae gan y bobl ddewis da o brydau a diodydd i ateb eu hanghenion a'u dewisiadau maethol. Gwelsom bobl yn mwynhau'r prydau a ddarperir a gwelsom ddiodydd a byrbrydau'n cael eu cynnig trwy gydol y dydd. Dywedodd staff y gegin wrthym am ofynion dietegol y bobl ac roedd ganddynt ddealltwriaeth dda o hoff bethau a chas bethau'r bobl. Mae'r cartref wedi cael sgôr asiantaeth safonau bwyd 3 seren (boddhaol ar y cyfan). Gwelsom fod profiad amser prydiau bwyd y bobl yn amser cymdeithasol a'r bobl yn mwynhau sgwrsio drwy gydol yr adeg.

Mae pobl yn elwa ar amrywiaeth o weithgareddau cymdeithasol a diddordebau o'u dewis. Dangosodd y cydlynydd gweithgareddau amserlen y gweithgareddau a oedd ar gael i ni, ac roedd pobl yn cymryd rhan mewn amrywiol weithgareddau a ddewiswyd ganddynt trwy gydol y dydd; megis peintio, arlunio a cherddoriaeth. Mae’r staff gofal hefyd yn cynnig ysgogiad cymdeithasol pan fydd angen. Gwelsom un aelod o staff yn trefnu gweithgareddau ar y llawr daear a phobl yn canu gyda'i gilydd.  Gan mai nifer cyfyngedig o ymwelwyr a fu yn y cartref ers mis Mawrth 2020 oherwydd pandemig COVID-19, mae angen cymorth cymdeithasol ac emosiynol ychwanegol gan staff ar y bobl. Gwelsom gefnogaeth 1-1 neu gefnogaeth grŵp trwy gydol y dydd.

Mae’r bobl yn cael eu hamddiffyn rhag niwed ac mae'r fynedfa i'r cartref yn ddiogel. Mae trefniadau amgylcheddol ar gyfer diogelwch tân a chynnal a chadw cyffredinol ar waith, ac mae'r cartref yn lân ac yn ffres drwyddo draw, heb unrhyw beryglon wedi'u nodi. Mae’r staff yn cynnal asesiadau risg amgylcheddol yn ogystal ag asesu risgiau sy'n benodol i iechyd a lles pob person. Mae'r staff wedi mynychu’r cyrsiau hyfforddiant gorfodol diweddaraf, a dywedodd y rheolwr wrthym eu bod wrthi’n trefnu’r holl hyfforddiant a oedd yn weddill ac y byddai dyddiadau'n cael eu darparu.

## Gofal a Chymorth

Mae’r staff gofal yn rhyngweithio â phreswylwyr mewn modd cyfeillgar a pharchus. Hyrwyddir dewisiadau pobl, er enghraifft o ran opsiynau byrbrydau a phrydau bwyd. Mae'r staff gofal yn dangos gwybodaeth dda am ddymuniadau, anghenion y bobl a sut i ymateb iddynt. Mae hoffterau a dyheadau pobl yn cael eu dogfennu. Cânt eu galluogi i gael ymwelwyr yn y cartref a chânt eu hannog i gadw mewn cysylltiad dros y ffôn. Mae'r cofnodion gofal wedi gwella ac maent yn drefnus. Mae’r ddogfennaeth yn cynnwys y gofal a’r cymorth a gyflawnwyd yn fanwl, er inni drafod rhai materion gyda’r rheolwyr a fyddai’n elwa o gael eu hadolygu. Roedd y rhain yn cynnwys gwirio enwau ar ddogfennaeth yn gywir a sicrhau bod dulliau adnabod â llun yn amlwg yn y ffeiliau gofal.

Mae'r staff gofal yn adnabod y bobl y maent yn eu cefnogi'n dda a dywedodd rhai aelodau o'r staff wrthym eu bod wedi gweithio yn y cartref ers sawl blwyddyn. Felly, gallant adnabod unrhyw ddirywiad mewn iechyd a llesiant a gweithredu yn unol â hynny. Mae'r staff yn weladwy a gwelsom fod trefniadau staffio'n cael eu goruchwylio’n briodol. Mae gwybodaeth am sut mae pobl yn hoffi treulio eu diwrnod yn cael ei dogfennu ac mae amserlen weithgareddau yn adlewyrchu cyfleoedd trwy gydol yr wythnos. Dywedodd y rheolwyr wrthym fod pandemig COVID-19 wedi effeithio ar hyn. Mae'r cartref yn cwblhau archwiliadau ynghylch meysydd cyflwr croen a meddyginiaeth, sy’n cael eu goruchwylio gan yr unigolyn cyfrifol. Mae polisi meddyginiaeth ar gael ac mae meddyg teulu yn ymweld â'r cartref yn rheolaidd i fonitro ac adolygu iechyd preswylwyr gan gynnwys eu meddyginiaeth. Gwnaethom siarad â gweithiwr proffesiynol a oedd yn ymweld, a rhoddodd adborth cadarnhaol am y gofal y mae preswylwyr yn ei dderbyn.

Gall pobl fod yn hyderus bod trefniadau effeithiol yn y cartref a fydd yn amddiffyn diogelwch y cyhoedd ac yn lleihau croes-halogi. Mae mesurau ar waith i hybu rheoli heintiau, megis amserlenni ac archwiliadau glanhau. Gwelsom staff yn dilyn y canllawiau cyfarpar diogelu personol (PPE) cywir ac yn dilyn gweithdrefnau i leihau risgiau traws-heintio gymaint â phosibl. Er enghraifft, gwelsom orsafoedd diheintio drwy’r cartref ac roedd cyfarpar diogelu personol ar gael yn hawdd. Ar ôl i ni gyrraedd y cartref, gofynnwyd i ni ddarparu prawf llif unffordd (LFT) negyddol a dilyn rhagofalon ymwelwyr yn gywir yn ystod ein hymweliadau. Trwy gydol yr ymweliad, roedd yr ymwelwyr y gwnaethom siarad â nhw ganmol y staff, y rheolwr a'r gofal a ddarperir yn y cartref yn fawr iawn.

Mae mesurau ar waith i ddiogelu preswylwyr. Mae mynediad i'r cartref yn ddiogel a chedwir cofnod o ymwelwyr. Mae’r staff yn gwirio manylion adnabod yr ymwelwyr yn ofalus cyn iddynt fynd i mewn. Mae polisi diogelu ar waith ac mae rheolwyr yn dangos trosolwg o faterion diogelu. Mae'r cartref yn cysylltu'n briodol â'r awdurdod lleol ynghylch digwyddiadau ac yn hysbysu Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC), lle bo'n briodol. Mae'r cartref yn cymryd camau i fynd i'r afael ag unrhyw ymddygiad boddhaol gan y staff ac mae staff yn cael hyfforddiant diogelu.

## Yr Amgylchedd

Gofelir am y bobl mewn amgylchedd glân a chartrefol. Mae ystafelloedd gwely'r bobl yn bersonol iddynt ac yn cynnwys eitemau o'u dewis. Mae digon o gyfleusterau ymolchi a thoiledau i'r bobl, ac mae gan lawer o'r ystafelloedd unigol gyfleuster en-suite. Gwelsom staff domestig yn cyflawni dyletswyddau glanhau ym mhob rhan o'r cartref a chanfuwyd bod y cartref yn lân ac yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda. Pan wnaethom siarad â'r bobl, roeddent yn canmol y cartref yn fawr. Gwnaethom nodi annibendod mewn un ystafell ymolchi a rhoi gwybod i'r rheolwr a symudodd yr eitemau ar unwaith, gan ddarparu amgylchedd ymolchi dymunol i bobl ei fwynhau os ydynt yn dymuno.

Mae gan bobl ymdeimlad o berthyn. Mae'r cartref yn cynnig sawl man cymunol i'r bobl eistedd a mwynhau sgwrsio ag eraill neu dreulio'r amser yn dawel. Mae hyn hefyd yn galluogi cynnal pellter cymdeithasol yn ystod y cyfnod COVID-19 hwn. Mae ardal fwyta/lolfa fawr yn edrych dros y gerddi blaen dymunol, sy'n rhoi naws ddymunol i'r cartref. Gall y bobl fwynhau treulio amser yn y gerddi hyn yn y tywydd cynhesach. Mae mynediad ac allanfa dda i bobl ag anghenion symudedd. Mae mynedfa'r cartref yn ddiogel ac mae'n rhaid i ymwelwyr ffonio i gael dod i mewn.

Mae pedair lefel yn y cartref, a phob un yn hygyrch trwy lifft. Mae'r cartref wedi cael sgôr hylendid bwyd o 3 (sy'n dangos arferion hylendid cegin 'boddhaol ar y cyfan'). Mae'r cartref yn cynnig llety addas i'r preswylwyr ac mae'r rheolwyr wedi ymrwymo i'w ddatblygu ymhellach. Mae polisi rheoli heintiau a pholisi ymwelwyr ar gael. Mae'r staff yn cynnal gwiriadau diogelwch tân rheolaidd ac mae gan y bobl gynlluniau brys personol (PEEPs) ar waith, fodd bynnag, gwnaethom eu cynghori y dylid adolygu'r ffeil 'cydio' er mwyn cynnwys llun adnabod yr holl breswylwyr pe bai argyfwng. Gweithredodd y rheolwr ar unwaith ac adolygodd y ffeil 'PEEPs' a newidiwyd llun pob preswylydd. Mae rheolwyr yn goruchwylio gofynion iechyd a diogelwch y cartref. Mae asesiad risg tân ar waith ac mae'r staff gofal yn derbyn hyfforddiant mewn diogelwch tân a chymorth cyntaf.

Mae ardystiad priodol ar waith ar gyfer cyfleusterau ac offer, megis offer trydanol, nwy, larymau galw nyrs, offer codi a chario a'r lifft. Wrth gerdded o gwmpas y cartref, gwelsom fod agoriadau'r ffenestri a allai achosi risg i breswylwyr yn ddiogel. Mae'r cartref yn cwblhau archwiliadau amgylcheddol i sicrhau bod ardaloedd yn lân ac yn ddiogel, fodd bynnag, gwnaethom nodi bod rhai clychau galw ar goll. Tynnwyd sylw'r rheolwr at hyn a gosodwyd rhai newydd yn eu lle ar unwaith.

## **Arweinyddiaeth** a Rheolaeth

Gall pobl fod yn hyderus bod y darparwr yn monitro ansawdd y gwasanaeth a gânt. Mae systemau a phrosesau yn helpu i redeg y cartref yn ddidrafferth. Mae’r rheolwyr yn goruchwylio digwyddiadau, damweiniau a chwynion. Mae'r cartref yn cynnal archwiliadau mewnol i fonitro safonau ac arferion. Mae cyfnodau trosglwyddo dyddiol gan y nyrsys yn sicrhau bod gwybodaeth berthnasol yn cael ei rhannu rhwng staff pan fyddant yn trosglwyddo sifftiau. Gwnaethom edrych ar rai polisïau allweddol a gweld bod cynllun wrth gefn ar gyfer COVID-19 ar waith. Mae'r datganiad o ddiben yn disgrifio'r cartref a'i gyfleusterau. Gwnaethom ofyn i'r darparwr gyflwyno copi wedi'i ddiweddaru i AGC. Mae canllaw ysgrifenedig yn rhoi gwybodaeth allweddol i bobl am y gwasanaeth.

Gall pobl fod yn sicr bod staff yn gymwys i gyflawni eu rolau. Gwnaethom edrych ar wyth o ffeiliau recriwtio staff a nodi eu bod yn cynnwys yr holl wiriadau cyn cyflogi sy'n ofynnol mewn perthynas ag unrhyw unigolyn sy'n gweithio mewn gwasanaethau rheoleiddiedig. Nodwyd gennym, lle'r oedd hyfforddiant yn hwyr, bod diwrnodau hyfforddi wedi'u trefnu a dyddiadau wedi'u darparu. Mae’r cofnodion hyfforddiant yn dangos bod hyfforddiant wedi'i gynnal a bod gan y gweithlu cyffredinol y sgiliau a'r wybodaeth ar gyfer y rôl y maent yn ei chyflawni. Mae’r staff gofal yn cael hyfforddiant arbenigol mewn meysydd sy'n cynnwys gofal dementia, gofal diwedd oes, gofal diabetes a gofal cathetr. Gwnaethom drafod hyfforddiant â'r rheolwr a ddywedodd wrthym y bu'n anodd cyflawni rhywfaint o hyfforddiant yn ystod pandemig COVID-19 ond bod hyfforddiant bron bob aelod o’r staff yn gyfredol a bod hyfforddiant gloywi wedi'i drefnu ar gyfer y dyfodol.

Gall pobl fod yn sicr bod y gwasanaeth yn cael ei redeg yn unol â pholisïau a gweithdrefnau cyfredol. Gwelsom fod y rhan fwyaf o'r polisïau wedi'u hadolygu a'u bod yn cynnwys gwybodaeth wedi'i diweddaru yng ngoleuni newidiadau i'r canllawiau. Felly, byddai unrhyw staff sy'n cael y wybodaeth hon yn dilyn gwybodaeth sy'n gyfredol ac i danategu eu hymarfer wrth gynorthwyo'r bobl. Trefnwyd dyddiadau ar gyfer cyfarfodydd staff, rheolwyr, perthnasau a phreswylwyr yn y dyfodol a gofynnwyd am adborth ac ymgysylltiad.

Ceir tystiolaeth o drefniadau goruchwylio a llywodraethu addas ar gyfer y gwasanaeth. Mae'r unigolyn cyfrifol yn ymweld â'r cartref yn rheolaidd ac yn ymgysylltu ag unigolion a phreswylwyr. Maent yn dangos bod yr adnoddau’n cael eu goruchwylio’n chwarterol a gwelsom adolygiad o ansawdd gofal a gwblhawyd ers yr arolygiad diwethaf. Gwelsom fod y gwasanaeth yn cael ei oruchwylio’n briodol.

| Crynodeb o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd y diffyg cydymffurfio hwn yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac ni chyflawnwyd. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfedd yn y dyfodol a bydd yn cael ei brofi yn yr arolygiad nesaf. |
| **Ni chyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac ni chafodd ei gyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac fe'i cyflawnwyd. |

Rydym yn ymateb i ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan fo canlyniadau gwael ar gyfer pobl, a/neu risg i lesiant pobl, yn cael eu nodi drwy ddyroddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Mae'n rhaid i'r darparwr gymryd camau brys i fynd i'r afael â hyn a gwneud gwelliannau. Pan fydd darparwyr yn methu cymryd camau blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, mae'n bosibl y byddwn yn uwchgyfeirio'r mater i Banel Gwelliant a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Amherthnasol | Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn. | Amherthnasol |

Pan fyddwn yn dod o hyd i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond ni nodir unrhyw risg uniongyrchol neu sylweddol ar gyfer pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn amlygu'r rhain fel Meysydd i'w Gwella.

Rydym yn disgwyl y bydd y darparwr yn cymryd camau i gywiro hyn a byddwn yn mynd ar drywydd y camau hyn yn yr arolygiad nesaf. Pan fo'r darparwr wedi methu gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy ddyroddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Amherthnasol | Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn | Amherthnasol |

| | | |
|---|---|---|
| | yn yr arolygiad hwn. | |

**Dyddiad cyhoeddi** 28/04/2022